Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

**Enw'r polisi, strategaeth, rhaglen neu gynllun:**
Cynllun Gweithredol Cyngor Celfyddydau Cymru, 2019/20

**Polisi, strategaeth, rhaglen neu gynllun presennol neu newydd:**
Dyma'r datganiad wedi'i ddiweddaru o'n gweithgareddau sydd yn ein cynllun gweithredol newydd, 2019/20

**Adran:**
Y Cyngor cyfan

**Pwy sy'n cynnal yr asesiad?**
Nick Capaldi

**Dyddiad yr asesiad:**
15 Mawrth 2019

---

1. **Beth yw nod y polisi, strategaeth, prosiect, rhaglen neu gynllun?**

   Mae'r Cyngor yn cytuno ar ein Cynllun Gweithredol bob blwyddyn gan. Mae'n disgrifio ein gweithgareddau a'n blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn i ddod. Felly mae'n penderfynu beth fydd ein gwariant a dyrannu amser ein staff ac adnoddau eraill.

   Dyma'r cynllun gweithredol cyntaf ers cyhoeddi ein cynllun corfforaethol newydd "Er budd pawb".

2. **Pwy sy'n cael ei effeithio gan y polisi neu pwy fydd yn elwa o'r polisi arfaethedig a sut?**

   O gofio natur hollgympasog y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, mae ystod eang o unigolion a sefydliadau yn cael ei heffeithio o bosibl, gan gynnwys artistiaid, awdurdodau lleol, partneriaid prosiect a'r cyhoedd.

   Drwy'r cynllun rydym ni'n bwriadu newid sail hanesyddol ein patrymau o ariannu a'n cynigion gwario.

Mae ein hymchwil yn dangos nad ydym ni'n llwyddo o'r hanner i baru canran y bobl â nodweddion gwarchodedig yn y boblogaeth â'r gweithgareddau rydym ni'n eu hariannu.

Rydym ni hefyd yn gwybod bod rhai rhwystrau systemig sy'n atal rhagor o bobl rhag mwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tlodi cymharol.

Ar hyn o bryd canran fechan iawn o bobl â nodweddion gwarchodedig y mae'r celfyddydau ledled Cymru yn ei chyrraedd.

Mae'r bwlch yn arbennig o drawiadol yn nifer frawychus o isel sydd o bobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig sy'n cael eu cyflogi neu sydd ar fyrddau rheoli. Mae hyn yn fater o gryn bryder i'r Cyngor sydd am weld hyn yn newid yn sylweddol dros oes y cynllun yma.

Mae angen inni weld croestoriad ehangach o'r boblogaeth yn ymwneud â'r celfyddydau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus - boed hynny'n aelodau o'r gynulleidfa, ymgyfranogwyr, gweithwyr neu'n aelodau bwrdd. Rydym ni'n dweud rhagor am hyn yn ein cynllun cydraddoldeb strategol.

Mae llwyddiant ein cynlluniau'n dibynnu ar fynd i'r afael â materion cydraddoldeb drwy fynd ati mewn nifer o ffyrdd ar yr un pryd. Dim ond gwerth un flwyddyn o weithgareddau sydd yn ein cynllun gweithredol. Ond, dros oes y cynllun corfforaethol, rydym ni'n bwriadu:

- Ymgysylltu ac ymgynghori â'n partneriaid, eu hysbysu, eu hannog, eu herio a'n herio ni'n hunain
- Datblygu gweithlu creadigol sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru
- Cynyddu amrywiaeth ein cynulleidfaoedd
- Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau
- Buddsoddi mewn datblygu ymarfer celfyddydol mwy amrywiol drwy gomisiynu cynlluniau sy'n ehangu amrywiaeth y gwaith sy'n cael ei wneud yma
- Cefnogi cyfnod pellach o waith drwy ein prosiect cARTrefu
- Gweithio gyda'r Portffolio i fynd i'r afael â thargedau ein cynllun cydraddoldeb strategol

Rydym ni hefyd wedi nodi pedair blaenoriaeth benodol o ran comisiynu, cynhyrchu a chyflwyno gwaith:

- gwaith creadigol artistiaid anabl
- gwaith creadigol artistiaid duon, Asiaidd ac ethnig
- atgyfnerthu ein gwaith gyda phobl hŷn mewn lleoliadau gofal cymdeithasol
- gwaith creadigol artistiaid sydd am weithio drwy gyfrwng y Gymraeg

3. Sut y cafodd (neu y caiff) y polisi ei weithredu a phwy sydd (neu a fydd) yn gyfrifol am ei ddarparu?

   Un o gyfrifoldebau allweddol y Cyngor yw cytuno ar y cynlluniau corfforaethol a gweithredol, cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

   Mae ein bwrdd, y Cyngor, yn nodi'r blaenoriaethau ac ymrwymiadau allweddol. Wedyn y staff fydd yn gweithredu'r rhain.

   Cafodd y cynllun corfforaethol ei ddatblygu drwy gyfres o sgyrsiau creadigol Cymru gyfan a oedd yn cyrraedd dros 500 o fynychwyr o wahanol gefndiroedd a lleoliadau, mewn 12 digwyddiad. Roedd hyn yn sail i lunio ein cynllun gweithredol, sy'n cynnwys mewnbwn staff y Cyngor.

   Caiff cynnydd ei fonitro drwy waith y Cyngor, ei bwyllgorau a'i grwpiau monitro arbenigol.

4. Oes unrhyw sylwadau cyffredinol sy'n ymwneud â phob nodwedd warchodedig a/neu unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol y dylid ei nodi wrth gynnal yr asesiad?

   Rydym ni'n ymrwymedig i hyrwyddo hygyrchedd cyfartal i ystod lawn o weithgareddau celfyddydol i'r holl unigolion a chymunedau, ni waeth beth yw eu nodweddion gwarchodedig. Ar hyn o bryd rydym ni'n ymgynghori am ein harian Loteri, ond rydym ni'n disgwyl y bydd cynnig i symud adnoddau i ychwanegu pwysau at ein blaenoriaethau corfforaethol.

   Cafodd mewnbwn i'n cynlluniau corfforaethol a gweithredol drwy ymchwil, ymgysylltiad ac ymgynghoriad – yn y dechrau drwy ein sgyrsiau creadigol Cymru gyfan. Roedd y rhain yn gyfarfodydd go iawn a chyfleoedd ar-lein drwy holiaduron. Mae pob un yn cael ei annog i lenwi holiaduron monitro fel y byddwn ni'n gallu gweld i ba raddau mae ein gweithgarwch yn cyrraedd pob grŵp o bobl â nodweddion gwarchodedig.

   Rydym ni'n monitro cydraddoldebau drwy ein cynllun cydraddoldeb strategol gweithredol sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Mae'r cynllun ar ein gwefan. Mae'r un cyfredol yn cynnwys ein hymrwymiad i greu'r amgylchedd gorau i'r celfyddydau ac artistiaid i ffynnu a'n penderfyniad i adfywio ein gwaith gyda'r cydraddoldebau. Mae'n dweud:

   "Nid rhywbeth newydd i'r Cyngor yw gweithio i gefnogi rhagor o gydraddoldeb ar draws y celfyddydau... Ond rhaid inni wneud llawer mwy os ydym ni am gyrraedd yn ddyfnach ac ehangach i gymunedau ledled Cymru.

Ein nod yw mynd ymhellach nag adlewyrchu'n unig ganrannau cenedlaethol cyffredinol. Rhaid i'r celfyddydau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus arwain drwy esiampl a bod yn uchelgeisiol eu hamcanion."

Mae canlyniadau ein harolwg diweddaraf o'r portffolio yn dangos bod llawer rhagor i'w wneud. Araf yw'r cynnydd tuag at sicrhau dosbarthiad tecach o weithgarwch. Mae hyn yn codi materion pwysig ynghylch gweithgareddau ein portffolio, a bydd angen rhagor o ymchwil i ddeall yn well beth yn union sy'n digwydd. Er enghraifft, rydym ni'n gwybod bod llawer iawn o weithgarwch sy'n digwydd gyda dysgu creadigol nad ydym ni'n ei nodi'n gywir gyda'n gwaith monitro rheolaidd.

Mae buddsoddiad mewn pobl â nodweddion gwarchodedig a phrosiectau perthnasol yn digwydd hefyd drwy weithgareddau sy'n cael arian o gyllidebau Loteri a strategol y Cyngor. Nid ydym ni'n credu bod yr arian ar gyfer pobl â nodweddion gwarchodedig yn lleihau o ganlyniad i'n cynigion cyllidebol cyffredinol. Ond rydym ni'n cydnabod bod meysydd o'n strategaeth sydd heb eu datblygu'n ddigonol ac mae eisiau ailedrych arnynt. Nod ein strategaeth ariannol yw mynd i'r afael â hyn.

Ein ffordd o bennu camau gweithredu, mentrau a rhaglenni yw drwy ein cynllun cydraddoldeb. Ond ar hyn o bryd mewn rhai meysydd, rhy ychydig o dystiolaeth sydd gennym. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i fesur cynnydd ar gyfer y nodweddion gwarchodedig sydd heb eu cynnwys yn ein data blaenorol.

Rydym ni'n mynd i'r afael â hyn, ond mae'n arbennig o wir am:

- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- crefydd
- cyfeiriadedd rhywiol

Bydd gwell data'n ein galluogi i ddeall yn well y camau penodol y dylem ni eu cymryd. Ymhen y rhawg bydd hefyd yn ein helpu i asesu pa mor effeithiol y buom ni wrth alluogi pobl â nodweddion gwarchodedig i fanteisio ar ein cyfleoedd a hynny ar sail gyfartal.

Mae ein grŵp monitro cydraddoldebau'n craffu ar ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

5. Fyddai’r polisi, strategaeth, prosiect, cynllun neu raglen yn gallu cael effaith wahaniaethol ar y grwpiau canlynol?

## Oedran

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Mae'r Cyngor yn parhau i ystyried gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn flaenoriaeth strategol.

Yn ein strategaeth hyd yn hyn mae pwyslais arbennig ar bobl ifanc, yn enwedig drwy uchelgais y rhaglen Dysgu creadigol drwy’r celfyddydau. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i ymestyn y rhaglen am gyfnod pellach.

Mae’r Cyngor hefyd wedi bod yn sbardun mawr wrth gefnogi cyfleoedd creadigol ar gyfer pobl hŷn mewn mentrau fel Gŵyl y Gwanwyn. Rydym ni hefyd mewn partneriaeth ag Age Cymru a Sefydliad Baring i sicrhau datblygu hygyrchedd i'r celfyddydau a’u manteision i hen bobl mewn gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn parhau am gyfnod pellach o fuddsoddiad.

Byddwn ni’n parhau i olrhain ein hymgysylltiad drwy ein gwaith strategol ac ariannol drwy ein hadrodd ar y cydraddoldebau. Wrth lunio ein cynllun corfforaethol roeddem ni wedi gwahodd Age Cymru i gymryd rhan yn ein sgwrs greadigol Cymru gyfan.

Tasg allweddol i 2019/20 fydd ymgorffori ein strategaeth newydd i’r celfyddydau ac iechyd. Wrth gwrs, nid canolbwyntio ar bobl hŷn yn unig y bydd y fath strategaeth, ond yn sicr byddan nhw’n rhan bwysig.

## Anabledd

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Yn ôl ein hymchwil mae’n glir iawn fod sector y celfyddydau anabledd wedi’i dangynrychioli ymhlith ein portffolio presennol. Felly hefyd mae artistiaid anabl yng ngwaith ehangach y Cyngor.

Yn ddiweddar mae cynnydd wedi bod yn nifer y gweithwyr anabl yn ein portffolio. Ond, o'u cymharu â nifer cyffredinol y gweithlu, mae niferoedd yn isel iawn o hyd sy’n siom

inni. Mae ein cynllun cydraddoldeb strategol, 2017-21, yn mynd i'r afael â hyn gyda chamau gweithredu manwl.

Mae cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr anabl yn parhau i wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu'n llawn â'r celfyddydau. Bu cynllun Hynt yn llwyddiant nodedig yn y maes.

Mae ein cynlluniau'n cynnig mentrau newydd i greu rhagor o gyfleoedd i bobl anabl er mwyn creu gwaith a dod o hyd i swyddi yn y celfyddydau.

## Ailbennu Rhywedd

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Mae'r Cyngor yn gwybod bod yn rhaid iddo ddatblygu ei waith yn y maes yma i liniaru ar unrhyw effaith wahaniaethol. Mae wedi dod i gytundeb ffurfiol gyda Stonewall Cymru o ran eu rhaglen Hyrwyddwyr.

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Yn y gorffennol rydym ni wedi cefnogi gwaith prosiect o gwmpas y celfyddydau a gwaith grŵp gyda menywod beichiog. Nid ydym ni'n credu bod cynigion gweithredol y Cyngor yn gwahaniaethu'n annheg yn y maes yma.

Rydym ni'n gwybod am yr angen i ddiwallu anghenion mamau beichiog a'r rhai sy'n magu. Er enghraifft, mae ein canllaw cydraddoldeb yn mynd i'r afael ag ystyriaethau am adeiladu neu addasu prosiectau i'w gwneud yn fwy hygyrch a chroesawgar i famau sy'n magu a merched beichiog.

## Hil neu Ethnigrwydd (gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr)

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Yn ôl ein hymchwil a'n hystadegau mae'n glir fod artistiaid a sefydliadau  celfyddydol o gefndiroedd amrywiol wedi'u tangynrychioli ymhlith ein portffolio ac ar draws y sector celfyddydol yn gyffredinol.

Isel iawn yw'r ffigurau ymgysylltu yn ein prosiectau Loteri ar gyfer yr holl grwpiau lleiafrifol. Mae cynulleidfaoedd ac ymgyfranogwyr o'r grwpiau yma hefyd yn wynebu rhwystrau rhag ymgysylltu'n llawn â'r celfyddydau. Mae Ysbrydoli yn rhoi sylw arbennig i brif-ffrydio agenda'r cydraddoldebau.

Hefyd, drwy Gamau Creadigol a mentrau eraill yn ein cynllun gweithredu cydraddoldeb strategol, mae prosiectau penodol ar y gweill ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r rhwystrau.

Byddwn ni'n cychwyn a gweithredu rhaglenni targedol a fydd yn cynyddu nifer y bobl dduon, Asiaidd ac ethnig sy'n cymryd rhan yn y celfyddydau ledled Cymru. Mae ein rhaglen Camau Creadigol wedi cael effaith gadarnhaol, ond rydym ni'n meddwl y byddwn ni'n cael rhagor o effaith drwy ffordd newydd o fynd ati.

Ar hyn o bryd rydym ni'n cynnal ystod o fentrau datblygu busnes ac, o'r rhain, Gwytnwch yw'r un mwyaf trawsnewidiol. Dylai arbenigedd a chymorth technegol y rhaglen fod ar gael i sefydliadau amrywiol. Bydden ni'n targedu cymorth yn arbennig ar gyfer sefydliadau celfyddydol dan arweiniad pobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig. Byddwn ni hefyd yn anelu at gael rhagor o gwmnïau i dderbyn y fath gefnogaeth.

Rydym ni yn y camau cynnar o ddatblygu partneriaeth gyda chymuned y Sipsiwn, pobl Roma a Theithwyr yng Nghymru.

Mae mentrau penodol megis y cydweithredu presennol â The British Council yn y rhaglen Cymru-India yn gysylltiedig â gwaith gwaddol ac ymgysylltu o ran cymunedau Cymru.

Byddwn ni'n parhau i gynnal rhaglenni targedol a fydd yn ceisio cynyddu amrywiaeth y gweithlu celfyddydol a chynrychiolaeth ar fyrddau.

Megis gyda nodweddion gwarchodedig eraill, bydd hyn yn destun monitro a datblygu polisi dros oes y strategaeth. Byddwn ni'n olrhain ein hymgysylltiad drwy ein gwaith strategol ac ariannol drwy ein hadrodd cydraddoldeb.

## Crefydd neu gred

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Ym marn y Cyngor, nid yw crefydd a chred yn faes sydd wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

Nid oes unrhyw effaith benodol hyd y gwyddom, ond mae gan rai crefyddau reolau sy’n pennu pwy sy’n gallu cymryd rhan yn y celfyddydau a pha gelfyddyd sydd wedi’i ganiatáu. Rydym ni wedi datrys pryderon blaenorol ynghylch rhyddid mynegiant drwy adolygu ein templed monitro cyfle cyfartal sy'n caniatáu i'r unigolyn fynegi ei hun yn ôl ei ddewis.

## Rhywedd

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Yn ôl arolygon o’r portffolio, mae mwy o fenywod nag o ddynion yn cael eu cyflogi ganddo. Ond o ran y byrddau, mae mwy o ddynion na menywod. Bydd ein gwaith gyda’r portffolio yng nghyd-destun Gwytnwch yn mynd i’r afael â chyfansoddiad y byrddau. Hefyd mae ein cynllun cydraddoldeb strategol, 2017-21, yn ceisio cynyddu amrywiaeth byrddau.

Mae’r cydbwysedd rhwng y rhywiau o ran gweithwyr theatr yn broblem o hyd.

## Cyfeiriadedd Rhywiol

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

Rydym ni’n gwybod bod yn rhaid inni ddatblygu ein gwaith yn y maes yma. I liniaru ar unrhyw effaith wahaniaethol, rydym ni wedi ymrwymo i gytundeb ffurfiol gyda Stonewall Cymru o ran eu rhaglen Hyrwyddwyr.

## Y Gymraeg

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Oes ☒

O gofio ymrwymiadau Llesiant Cenedlaethau Dyfodol Llywodraeth Cymru a'r twf targedol mewn niferoedd o siaradwyr Cymraeg, rhaid i’n cynllun corfforaethol (2018-23) fynd i’r afael â sut i feithrin diwylliant ac iaith fywiog a chefnogi twf siaradwyr Cymraeg.

Mae cyflwyno Safonau’r Gymraeg newydd wedi cynnig cyfle inni ailystyried yr agwedd yma ar ein gwaith. Mae’n amlwg nad ydym ni eto yn gwneud digon. Mae gwaith drwy'r cynllun Labordy gydag S4C a gwaith targedol arall yn ceisio annog ysgrifennu newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Pryder cynyddol yw argaeledd theatr Gymraeg o safon.

Yn ddiweddar roeddem ni wedi dechrau grŵp gorchwyl i gwrdd ag arbenigwyr sectorol i ystyried y ffordd orau ymlaen. Rydym ni’n gweld y broblem yn glir, ond nid yr atebion. Byddai neilltuo swm o arian ar gyfer cynhyrchu theatr Gymraeg yn amlwg yn gwneud budd. Ond annhebyg y byddai’n cynnal y math o newid cynaliadwy hirdymor yr hoffem ni ei weld.

Yn ein barn ni, mae eisiau mynd i'r afael â’r her mewn nifer o ffyrdd:
- comisiynu a datblygu sgriptiau’n well
- gwella safon y gwaith sy’n cael ei gynhyrchu
- unigolion â medrau priodol mewn uwch swyddi yn y celfyddydau
- marchnata cynnyrch Cymraeg yn well

Dylem ni, yn sicr, fod yn barod i gynyddu'r arian i waith Cymraeg ond byddai’n fuddiol ymgynghori’n bellach â'r sector am sut orau i reoli’r buddsoddiad yma.

## Priodas a Phartneriaeth Sifil

Oes effaith wahaniaethol neu effaith wahaniaethol bosibl?

Nac oes ☒

Nid ydym ni’n ystyried yr un agwedd ar y cynllun corfforaethol yn ei hanfod yn wahaniaethol yn erbyn y nodwedd warchodedig yma.

## Camau gweithredu/tasgau sy'n cael eu nodi drwy'r sgrinio ac asesu

| Mater | Cam gweithredu/tasg | Swyddog arweiniol | Amserlen | Goblygiadau i adnoddau | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|
| Sgiliau a galluoedd ein staff | Cefnogi ein staff a mynd yn eiriolwyr mwy hyderus a gwell | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi/ Rheolwr Adnoddau Dynol | Diwedd blwyddyn adrodd 2019/20 | Dysgu a datblygu | |
| Amrywiaeth y Cyngor a'i staff | Cynyddu ac ehangu ystod ac amrywiaeth y bobl sy'n ymhél â ni a'n gwaith | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Ymgyfranogi/ Rheolwr Adnoddau Dynol | Diwedd blwyddyn adrodd 2019/20 | | |
| Data a thystiolaeth | Gwella ein gwybodaeth o weithgarwch pobl â nodweddion gwarchodedig | Rheolwr Ymchwil | Diwedd blwyddyn adrodd 2019/20 | Ymchwil | |
| Proffil ac ymwybyddiaeth gyhoeddus | Dangos drwy ein heiriolaeth a'n hymgyrchoedd ein bod yn Hyrwyddwyr Cydraddoldebau | Pennaeth Cyfathrebu | Diwedd blwyddyn adrodd 2019/20 | Cyfathrebu | |

| | |
|---|---|
| **Pwy fydd yn cymeradwyo/awdurdodi?** Y Cyngor | |
| **Sut y bydd y rhain yn cael eu monitro?** Yr Uwch Tîm Arwain | |